# SYNIADAUNEWYDD AR GYFER NEWID CYMDEITHASOL

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 7.3.2024

cwmpas

Start Something Good




cwmpas
Dechrau Rhywbeth Da
Start Something Good

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

GWYNEDD AND ANGLESEY PUBLIC SERVICES BOARD

**Yr Her**

Comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru, a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn Cwmpas i ddarparu dau hacathon a fyddai'n dod â sawl rhanddeiliad ynghyd i fynd i'r afael â'r her ganlynol:

*Sut allwn ni ymdrin ag anghenion y gymuned leol yn well drwy wella mynediad a chludiant yn Niwbwrch?*

## Y Broses

Yn ystod y digwyddiad, darparwyd dwy sesiwn union yr un fath yn y prynhawn a chyda'r nos ar 7 Mawrth 2024. Ymgymerodd mwy nag wyth deg o fynychwyr - yn cynnwys trigolion, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a Cyfoeth Naturiol Cymru - â dwy sesiwn o weithdai dwys a blaengar gyda'r nod o rannu safbwyntiau, creu cysylltiadau newydd, dysgu methodolegau newydd, a chytuno ar syniadau arloesol i ymateb i'r her.

Mae creu sawl grŵp amrywiol yn allweddol i'r broses. Cafodd yr 80 a mwy o gyfranogwyr eu rhannu'n 11 tîm, gyda phob un yn cynnwys chwech i wyth o aelodau o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol.

## Y Gweithdai

Cafodd yr 11 tîm eu tywys trwy chwe gweithdy gwahanol yn ystod y digwyddiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Mapio Asedau
- Mapio Heriau
- Syniadaeth
- Lleihau Syniad
- Llunio Prototeip
- Cyflwyno Syniadau

## Mapio Asedau

Mae'r dull 'Start Something Good®' yn golygu dechrau o safle cryf drwy nodi pa adnoddau sydd ar gael i ddatrys yr her o dan sylw. I ddod o hyd i ateb mae angen i gyfoeth o 'offerynnau' fod ar gael inni. Lluniodd pob un o'r grwpiau fap asedau gyda'r bwriad o nodi meysydd o gryfder a meysydd y mae angen mwy o gymorth i ymdrin â nhw.

Isod mae tair rhestr yn cynnwys yr hyn a nodwyd gan bob tîm:

| Asedau cymdeithasol | Asedau dynol | Asedau cyhoeddus | Asedau ffisegol | Asedau ariannol |
|---|---|---|---|---|
| - Rhun Ap Iorwerth (AS)<br>- Ysgol gynradd<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Siop<br>- Tafarn<br>- Canolfannau cymunedol x 2<br>- Gwersylloedd<br>- Grwpiau buddiant<br>- Eglwys (San Pedr; Eglwys Bach)<br>- Grŵp hamdden i bobl dros 50 oed<br>- Llywodraeth Cymru<br>- Yr awdurdod lleol<br>- Busnesau lleol<br>- Digwyddiadau<br>- Cyngor cymuned<br>- Grŵp coetir cymunedol<br>- Trigolion (cyfoeth o brofiad ac arbenigedd)<br>- Cynghrair Bro Aberffraw<br>- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol<br>- Caffi<br>- Siop pysgod a sglodion<br>- Pentref model<br>- Amgueddfa trafnidiaeth<br>- Y gymuned<br>- M-Sparc<br>- Grwpiau Facebook<br>- Cysylltiadau â'r gymuned a | - Trigolion<br>- Newydd ddyfodiaid; ymwelwyr; twristiaid<br>- Ieuenctid<br>- Busnesau lleol<br>- Gwybodaeth bersonol am yr ardal<br>- Profiad blaenorol<br>- Cysylltiadau teuluol ehangach<br>- Poblogaeth oedrannus sy'n tyfu<br>- Synnwyr cryf o gysylltedd<br>- Cydgysylltedd<br>- Medrwn Môn<br>- Cysylltiadau rhwng pentrefi<br>- Gwybodaeth<br>- Hanes<br>- Sgiliau rheoli strategol<br>- Angerdd<br>- Tir ffermio<br>- Siopau<br>- Mesurau rheoli traffig<br>- Cefnogaeth i'r gymuned leol<br>- Croeso i ymwelwyr<br>- Creu cyflogaeth newydd<br>- Grŵp cerdded<br>- Cymdeithasau, e.e. Criw Niwbwrch | - Amberon<br>- Yr eglwys<br>- Cárnifal cymunedol<br>- Ysgol (cydlyniad)<br>- Cynghorwyr (sir; cymuned)<br>- Gwylwyr y Glannau<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Llyn Parc Mawr<br>- Traeth<br>- Coedwig<br>- Rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus<br>- Gwarchodfa natur<br>- Yr heddlu<br>- Yr awdurdod lleol<br>- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr<br>- Cadw<br>- Medrwn Môn<br>- Menter Môn<br>- Platfform mapiau cyhoeddus<br>- Pêl-droed<br>- Gofal plant<br>- Gwasanaethau iechyd<br>- Gweithgareddau teulu<br>- Cludiant<br>- Maes parcio<br>- Toiledau<br>- Yr heddlu<br>- Llywodraeth Cymru<br>- Trigolion<br>- Ymwelwyr<br>- Gweithwyr<br>- Tir y cyngor | - Traeth<br>- Coedwig<br>- Twyni<br>- Ynys Llanddwyn<br>- Traciau<br>- Llwybrau troed<br>- Gwarchodfa natur ddynodedig<br>- Y môr<br>- Gwersylloedd<br>- Maes chwarae<br>- Toiledau (ar gau)<br>- Llyn<br>- Perchnogion tir<br>- Priffyrdd<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Yr aer<br>- Pentref<br>- Tai<br>- Siopau<br>- Coed / pren<br>- Lleoliad gwledig hardd<br>- Hanes y pentref (heb ei adeiladu ar gyfer ceir)<br>- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol<br>- PJ Hall<br>- Iechyd a llesiant<br>- Ffyrdd<br>- Meysydd parcio<br>- Traffig<br>- Cludiant<br>- Tagfeydd<br>- Busnesau<br>- Tir ffermio<br>- Iechyd awyr agored<br>- Symudiad a llif traffig<br>- Taith gerdded gylchol | - Yr awdurdod lleol<br>- Llywodraeth Cymru<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Cyfleoedd ariannu eraill<br>- Incwm o faes parcio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| diddordeb personol ynddi<br>- Aelod Seneddol<br>- Sgiliau TG<br>- Y rhyngrwyd<br>- Radio lleol<br>- Coedwig<br>- Traeth<br>- Clwb cof<br>- Boreau coffi<br>- Sefydliad y Merched<br>- Nosweithiau ffilm<br>- Athrofa Pritchard Jones | | - Gwasanaeth bws<br>- Mae cludiant eich hun yn hanfodol<br>- Gynnau cyflymder (heddlu) | | |

**Gwaddol y Map Asedau**

Nid oes angen cyfyngu’r gweithgaredd hwn i’r digwyddiad ar 7 Mawrth o reidrwydd. Mae'n offeryn cyd-ddylunio y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datrys problemau yn barhaus, ac yn offeryn y gellir ychwanegu ato. Gellir ystyried pob un o'r asedau hyn yn unigol ar gyfer unrhyw her, ac ar unrhyw gam wrth ymdrin â heriau pellach (e.e. a all ‘x’ ein helpu? Beth pe baem yn cyflwyno ‘x’ i ‘y’? ac ati). Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr her yn gwneud y defnydd gorau o’r asedau presennol cyn gwario adnoddau mewn mannau eraill.

**Mapio Heriau**

Gofynnom i bob tîm gwblhau Map Her i (1) nodi'r heriau mwyaf sylweddol sydd i'w datrys, a (2) pa rwystrau sy'n bodoli? 3) beth yw'r cam diriaethol cyntaf sydd ei angen i ddatrys yr her? a 4) sut mae cychwyn arni?

| | |
|---|---|
| Beth yw'r heriau mwyaf arwyddocaol ar hyn o bryd? / What are the most significant challenges at the moment? 1 | Beth yw'r cam diriaethol cyntaf sydd ei angen? / What is the first tangible action needed to rectify the challenge? 3 |
| Beth yw'r rhwystrau? / What are the barriers in our way? 2 | Sut mae cychwyn arni? / How do we get started? 4 |

Gwerth yr adran hon yn y broses yw sicrhau bod y broblem, y rhwystrau, a'r camau rhesymegol y mae angen eu cymryd i symud ymlaen wedi'u nodi'n glir. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

**Bwrdd prynhawn 1**

| Yr heriau mwyaf sylweddol | Y camau gweithredu cyntaf |
|---|---|
| - Tagfeydd traffig<br>- Effaith / ymddygiad / niferoedd ymwelwyr<br>- Prin yw'r manteision i'r gymuned leol<br>- Sut i roi gwelliannau ar waith<br>- Cyfathrebu<br>- Gwarchod bywyd gwyllt rhag niferoedd gormodol o ymwelwyr | - Cyfathrebu pan fydd y maes parcio'n llawn (gwell a chynt)<br>- Gwneud y llif yn rhwyddach<br>- Dim mwy o feysydd parcio gan eu bod yn esgor ar fwy o dagfeydd<br>- Dylid cadw'r arwydd digidol sy'n rhoi gwybod bod y maes parcio'n llawn |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Seilwaith / cyfleusterau<br>- Cyfyngiadau ffisegol<br>- Sefydliadau arweiniol – cyfrifoldeb<br>- Gwneud penderfyniadau anodd<br>- Cyllid<br>- Cyfyngiadau cyfreithiol | - Nodi'r sefydliad arweiniol / cyfrifol<br>- Cytuno ar gynllun<br>- Mae ciwio yn y goedwig wedi helpu i leddfu tagfeydd ar Stryd y Capel<br>- Archwilio ffyrdd o dalu yn y maes parcio – ap |

**Bwrdd prynhawn 2**

| Yr heriau mwyaf sylweddol | Y camau gweithredu cyntaf |
|---|---|
| - Tagfeydd o ganlyniad i ormod o ymwelwyr i'r traeth<br>- Ffyrdd bach – mynediad i gerbydau unigol<br>- Gor-hysbysebu man hardd<br>- Bydd rhywun yn marw | - Mesurau rheoli traffig<br>- System unffordd?<br>- Trefniadau parcio a theithio posibl<br>- Dylid buddsoddi'r arian a wneir yn y pentref ar gyfer gwasanaethau y mae mawr eu hangen ac er mwyn ei ddigolledu<br>- Cydbwyso'r byd natur a phobl |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Mae'r ffordd yn rhy gul – ddim yn gallu ymdopi<br>- Ffordd fynediad unigol<br>- Dim mesurau rheoli traffig o'r pentref<br>- Mae'n gwneud arian – dylid rhannu'r cyfoeth<br>- Mesurau gwael o ran rheoli'r ffordd i mewn / allan<br>- Diffyg dewisiadau eraill ar y bwrdd | - Cael CNC i wrando a gweithredu<br>- Dylid cynnal arolwg priodol o broblemau<br>- Dylid rhannu'r ffeithiau llawn â phawb |

**Bwrdd prynhawn 3**

| Yr heriau mwyaf sylweddol | Y camau gweithredu cyntaf |
|---|---|
| - Cyllid<br>- Swm y traffig a'i gyflymder<br>- Poblogrwydd (y cyfryngau cymdeithasol)<br>- Ieuenctid – gweithgareddau, diogelwch<br>- Llwybrau beicio – diogelwch<br>- Rheoli pryderon ynghylch yr amgylchedd, e.e. y twyni tywod | - Mwy o gyfarfodydd cymunedol – nid rhai unwaith ac am byth<br>- Dylid ennyn cyfranogiad pobl leol – mae rhai wedi diflasu<br>- Ymgysylltu â'r gymuned<br>- Mae angen meysydd parcio (lluosog)<br>- Trefniadau parcio a theithio<br>- Ailgyfeirio traffig |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Meddwl / gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig<br>- Diffyg arian<br>- Caerdydd yn bell / wedi'i hymwahanu oddi wrth realiti<br>- Prynu tir - pwy sy'n berchen ar beth?<br>- Awdurdodaethau?<br>- A yw CNC yn berchen ar ddigon o dir? | - Mae heddiw yn ddechrau<br>- Gwrando ar bryderon<br>- Dim bai<br>- Bod yn adeiladol<br>- Grŵp cynrychioliadol i weithio'n gyson gyda chyrff cyhoeddus<br>- Grŵp ieuenctid yn edrych i'r dyfodol |

**Bwrdd prynhawn 4**

| Yr heriau mwyaf arwyddocaol | Y camau gweithredu cyntaf |
|---|---|
| - Traffig<br>- Llygredd<br>- Ail gartrefi / cartrefi gwag<br>- Twristiaeth gormodol / diffyg rheolaeth<br>- Diffyg gwybodaeth<br>- Cynddaredd ar y ffyrdd<br>- Mesurau rheoli traffig / trafnidiaeth | - Opsiynau realistig<br>- Cytundeb<br>- Siarad â phobl leol |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Diffyg trafodaeth<br>- Nid oes neb yn gwrando | - Dylid rhoi cynnig ar bethau gwahanol<br>- Maes parcio gwahanol – ysgol – bws<br>- Stryd yr Eglwys – dim parcio yn ystod cyfnodau prysur<br>- Angen parchu pobl ar Stryd yr Eglwys – plant ifanc a beiciau yn ceisio croesi ffordd brysur yn ystod misoedd yr haf<br>- Palmant cul / arwyddion ar y palmant |

| | |
|---|---|
| | - Ni all pobl anabl gerdded i'r maes parcio. Rhaid caniatáu ar gyfer mannau parcio i bobl anabl y tu allan i'w tai |

**Bwrdd prynhawn 5**

| **Yr heriau mwyaf sylweddol** | **Y camau gweithredu cyntaf** |
|---|---|
| - Ffyrdd: ffyrdd i mewn ac allan, traffig, cyfyngiadau<br>- Cyllid – rhyddhau incwm o faes parcio yn lleol<br>- Y system ffyrdd presennol<br>- Tagfeydd, tyllau yn y ffyrdd | - Rhyddid gwybodaeth am gyllid<br>- A allem ddatganoli'r gwasanaeth?<br>- Gwrando ar drigolion<br>- Cynnwys a chynllunio'n briodol (nid dim ond ymateb)<br>- Agwedd gadarnhaol tuag at newid<br>- Cynnwys yr holl bartïon perthnasol (ni, CNC, Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), Y Gronfa Ffyniant Gyffredin) / cyllid, ac ati)<br>- Derbyn cyfyngiadau penodol |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - CNC: rheolaeth, agwedd, rhyddhau cyllid, gwaith gwael (adferol); gweledigaeth / arloesi<br>- Y byd natur yn erbyn cynnydd / newid (nid ydym am niweidio ein hamgylchedd; rydym am ei amddiffyn)<br>- Dim dealltwriaeth lawn o'r hyn y mae preswylwyr ei eisiau / ei angen | - Bod yn agored<br>- Siarad<br>- Gwybodaeth<br>- Herio CNC ynghylch cynlluniau a rhwystrau cyfredol<br>- Cynlluniwch<br>- Gwnewch!<br>- Credwch yn y ffaith y bydd canlyniad<br>- Cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn<br>- Trigolyn ar Fwrdd CNC (nad yw'n weithiwr CNC) |

**Bwrdd prynhawn 6**

| **Yr heriau Mwyaf sylweddol** | **Y camau gweithredu cyntaf** |
|---|---|
| - Ffyrdd cul, dim palmentydd – peryglus<br>- Cysylltiadau diogel gwael i'r goedwig / y traeth o'r pentref | |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Diffyg seilwaith<br>- Trafnidiaeth gynaliadwy ddim yn bodoli | |

**Bwrdd prynhawn 7**

| **Yr heriau mwyaf sylweddol** | **Y camau gweithredu cyntaf** |
|---|---|
| - Traffig (Stryd yr Eglwys)<br>- Marchnata (Croeso Cymru, ac ati)<br>- Dim rheolaeth o ran pwy sy’n dod i'r safle<br>- Parcio ar draws Niwbwrch i gyd | - Asesu<br>- Mapio<br>- Ystyried opsiynau parcio<br>- Siarad â Croeso Cymru ynglŷn â pheidio â’i marchnata cymaint |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Dim ond un ffordd ato<br>- Ffordd gul<br>- Mae pobl yn parcio ar draws mynedfeydd tai yn Niwbwrch | - Cyfarfod cyhoeddus<br>- Ardal barcio yn y pentref ar gyfer trigolion yn unig |

**Bwrdd noson 1**

| **Yr heriau mwyaf sylweddol** | **Y camau gweithredu cyntaf** |
|---|---|
| - Ffordd gul<br>- Swm y traffig<br>- Mae’r uchafswm yn dibynnu ar y tywydd, penwythnosau, tymor y gwyliau | - Mae angen i bob un o'r partïon dderbyn ei bod yn broblem wirioneddol y mae angen ei datrys<br>- A yw'r data yn cadarnhau bod problem?<br>- Lleihau'r traffig |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Llawer o gyfarfodydd yn y gorffennol ond dim byd wedi’i weithredu<br>- Atebion wedi'u cynnig ond neb wedi gwrando arnynt | - Creu rhestr fer o opsiynau ac archwilio, e.e. system unffordd, trefniadau parcio a theithio, tacsis beic |

**Bwrdd noson 2**

| Yr heriau mwyaf sylweddol | Y camau gweithredu cyntaf |
|---|---|
| - Tagfeydd traffig<br>- Nifer cynyddol o ymwelwyr<br>- Yr awr frys<br>- Agweddau pobl<br>- Lled y ffordd<br>- Parcio<br>- Y tywydd | - System unffordd<br>- Arwydd ffordd ymhellach i ffwrdd<br>- Talu ymlaen llaw<br>- Beiciau yn unig<br>- Symud taliad<br>- Dilyn y cynllun rheoli traffig yn gywir<br>- Maes parcio dal<br>- Parcio oddi ar y safle<br>- Cyrbau isel ar Stryd yr Eglwys |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Ariannol<br>- Maint y ffordd<br>- Cynllunio<br>- 3 x Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)<br>- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)<br>- Bywyd gwyllt<br>- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)<br>- Materion cyfreithiol<br>- Llywodraeth Cymru (ffyrdd newydd) | |

**Bwrdd noson 3**

| Yr heriau mwyaf sylweddol | Y camau gweithredu cyntaf |
|---|---|
| - Mynediad<br>- Traffig<br>- Blocio'r ffyrdd<br>- Y gamdriniaeth gan aelodau o'r cyhoedd<br>- Agwedd<br>- Yr effaith ar drigolion<br>- Mynediad i'r gwasanaethau brys<br>- Hysbyseb enfawr | - Mae angen didoli traffig<br>- System unffordd<br>- Gwell rheolaeth ar niferoedd<br>- Mynediad i geir<br>- Tocynnau ar-lein |

| | |
|---|---|
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Mae'r ffordd yn rhy fach ar gyfer y traffig<br>- Ffyrdd cul<br>- Cerbydau wedi'u parcio<br>- Trigolion<br>- Dim cyfyngiad ar bobl o leoedd eraill<br>- Trafnidiaeth gyhoeddus – dim digon o fysiau | - Cyfarfodydd cyhoeddus<br>- Datrys cyhoeddus / datrysiad yr ymennydd<br>- Cyfathrebu â'r bobl leol<br>- Mwy o feysydd parcio yn y pentref<br>- Teithiau cychod |

**Bwrdd noson 4**

| **Yr heriau mwyaf sylweddol** | **Y camau gweithredu cyntaf** |
|---|---|
| - Traffig<br>- Nifer y bobl – 500 mewn diwrnod<br>- Tagfeydd<br>- Parcio yng nghanol ac ar gyrion y pentref<br>- Hinsawdd – erydu, lefel y môr yn codi, mwy o stormydd, mwy o wynt | - Arwyddion ymhellach i ffwrdd<br>- Rheoli mannau parcio<br>- Darparu mannau parcio ar gyfer pobl leol |
| **Rhwystrau** | **Sut i ddechrau arni** |
| - Cael cytundebau<br>- Gormod o bŵer mewn un corff<br>- Pobl ar y lefel uchaf – y cyngor / CNC<br>- Dod o hyd i leoliad ar gyfer parcio a theithio | - Treialon gwirioneddol<br>- Dichonoldeb<br>- Wedi dod o hyd i fynediad newydd |

## Syniadaeth

Nawr bod y cyfranogwyr wedi fframio'u cwestiwn, cawsant eu tywys trwy sesiwn ragarweiniol ar ddulliau syniadaeth.

Cyflwynwyd y cyfranogwyr i'r "Injan Arloesi" a'r tri dull syniadaeth craidd: Ailgyfunol, Cynyddol, ac Ehangol.





Yr Injan Arloesi gan Tina Seelig

Gofynnwyd i'r grwpiau gymryd rhan mewn ymarfer o'r enw "Crazy 8s" lle mae pob cyfranogwr yn defnyddio'r datganiad her "Sut allwn ni?" i gynhyrchu wyth datrysiad gwahanol o fewn wyth munud.

Yna fe'u gwahoddwyd i ymestyn eu proses syniadaeth drwy'r dechneg "Clever Trevor" drwy edrych ar yr her o safbwynt anghyfarwydd, er mwyn cael dealltwriaeth well o sut y byddai'r sefydliadau hyn yn mynd i'r afael â'r her. Roedd safbwyntiau enghreifftiol yn cynnwys Ikea, Bluestone, Cyngor Dinas Bryste, a Disney). Nid dynwared yr hyn y mae eraill wedi'i wneud yw nod y dull hwn, ond gofyn beth allwn ni ei ddysgu o'r ffordd y maen nhw'n gwneud pethau.

Diben gofyn i unigolion a grwpiau ystyried syniadau lluosog yw annog ffyrdd newydd a ffres o feddwl. Yn hytrach na dechrau gydag un syniad yn unig mewn golwg, mae gan y grwpiau sawl opsiwn i ddewis ohonynt ac i'w cyfuno. Gwerth meddwl a gweithio yn y modd hwn yw bod opsiynau'n cael eu hehangu yn hytrach na'u cyfyngu, a bod modd dod o hyd i syniadau arloesol ar draws y grŵp yn hytrach na dod oddi wrth un unigolyn blaenllaw. Mae'r dull syniadaeth hwn yn ehangu nifer y bobl sy'n ymwneud â chynhyrchu syniadau ac yn meithrin ymagwedd ddemocrataidd ac agored.




Yna fe wnaeth y grwpiau gategoreiddio, dadansoddi a chyfuno’r gwahanol syniadau er mwyn penderfynu ar dri datrysiad:

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 1**

1) Arwydd digidol ar y gylchfan yn dweud bod maes parcio'r traeth yn llawn pan fo’n llawn
2) Archebu lle yn y maes parcio ymlaen llaw yn unig
3) Coedwig di-draffig; parcio a theithio

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 2**

1) Ap Llanddwyn – parcio / cyfleusterau; cynnig opsiynau parcio / teithio eraill; dangos pa mor brysur ydyw
2) Parcio a theithio / cerdded – llogi beiciau, llogi bygis; mynediad i gerbydau rhwng mis Ebrill a mis Hydref - lleol, tocyn tymor, mynediad i bobl anabl yn unig; teithio llesol
3) Cyflogi trigolion i reoli mynediad

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 3**

1) Cyfres o gyfarfodydd; creu cysylltiadau ag ysgolion a grwpiau ieuenctid
2) Trafnidiaeth a thwristiaeth werdd: beiciau, trên ar y ffordd, trên un gledren, ceir cebl, cychod

3) System draffig unffordd gydag arwyddion sensitif (ailgyfeirio gyda chylchrediad Malltraeth i Ddwyran)

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 4**

1) Parcio a theithio (nid o reidrwydd yn Niwbwrch); rhaid i bobl nad ydynt yn lleol archebu lle
2) Llogi beiciau
3) Gwelliannau i'r ffyrdd ac arwyddion (arwyddion ar yr A55)

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 5**

1) Gwella trefniadau parcio: trafnidiaeth gyhoeddus; llwybrau beicio; maes parcio arall, defnyddio bws i ddod â phobl i mewn, parcio a theithio; sicrhau bod rhywun yn y ciosg ar adegau prysur; opsiynau gwell i drigolion; codi mwy a sicrhau bod y taliadau'n cael eu cymhwyso
2) Arwyddion gwell: gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol; arwyddion lleol – clir
3) Gwella'r ffyrdd: ffyrdd i mewn ac allan eraill; mannau pasio â blaenoriaeth fel eu bod yn arafu traffig (rhoi blaenoriaeth i draffig sy'n gadael); atgyweiriadau gwell i ffordd y traeth

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 6**

1) Gwelliannau i lwybrau beicio a cherdded o amgylch y pentref ac i'r traeth – yn hwylus i gerddwyr
2) Canolbwynt trafnidiaeth a rhannu ceir; system unffordd?
3) Datblygiad ap yn cyfeirio defnyddwyr at y mannau parcio sydd ar gael – gallai olygu cael meysydd parcio llai yn hytrach nag un mawr

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd prynhawn 7**

1) Parcio a theithio; adleoli'r maes parcio
2) Teithio llesol; llwybr beiciau
3) Dwy lôn neu system unffordd

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd noson 1**

1) Parcio a theithio
2) Llogi beiciau
3) Mannau gwefru cerbydau trydanol

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd noson 2**

1) System unffordd

2) Talu ymlaen llaw – slotiau amser, talu drwy ffonau symudol?
Parcio oddi ar y safle; teithio llesol – gwasanaethau gwennol, beiciau, trên

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd noson 3**

1) Parcio a theithio (Gaerwen?)
2) System unffordd – angen cynnal a chadw ffyrdd; ymadael ym Malltraeth
3) System archebu ar-lein ar gyfer parcio

**Y syniadau a gynhyrchwyd gan fwrdd noson 4**

1) Bws gwennol
2) Rhoi maes parcio newydd ar lwybr teithio llesol; cynnwys busnesau lleol – llogi beiciau gyda throlïau / certi i blant
3) Cynllun tacsi newydd

Yna gofynnwyd i'r grwpiau ddefnyddio'r matrics ymdrech yn erbyn effaith i benderfynu ar un syniad i'w gyflwyno.

## Syniadau Arfaethedig

Cafodd pob bwrdd y dasg o gyflwyno'u syniadau i'r cyfranogwyr eraill a'r panel. Roedd y syniadau fel a ganlyn:

**Bwrdd prynhawn 1:**

**Syniad:** Atal llif twristiaeth ormodol. Peidio â chynyddu nifer y mannau parcio ceir. Arwyddion digidol i ddangos bod y prif faes parcio yn llawn. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod hyn yn gweithio mewn rhannau eraill o'r DU ac ar Ynys Môn.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Cost – arwyddion a phersonél
- Dull / agwedd "Pam chi?" - efallai y bydd ardaloedd eraill o Fôn yn mynd yn genfigennus
- Polisi rheoli traffig
- Ymddygiad – gall pobl anwybyddu cyfathrebiadau

**Bwrdd prynhawn 2:**

**Syniad:** Defnyddio arwyddion – eu symud ymhellach i ffwrdd. Ap – rhannu gwybodaeth am gapasiti. Symud meysydd parcio ymhellach i ffwrdd a chroesawu teithio llesol. Dylai mynediad o Stryd yr Eglwys fod i drigolion a phobl anabl yn unig.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Cyllid - angen partneriaeth a nawdd
- Ymagwedd gadarnhaol
- Hygyrchedd - o safbwynt teithio llesol ond o ran technoleg hefyd, e.e. ar gyfer apiau
- Amserlenni
- Diogelwch - defnyddio ap yn ddiogel (h.y. nid wrth yrru)

**Bwrdd prynhawn 3:**

**Syniad:** Parcio a theithio gyda bysiau trydan. Dim mynediad o'r groesffordd, ac eithrio ar gyfer pobl leol. Arwyddion clir. Gallai pobl leol neu fusnes lleol redeg gwasanaeth parcio a theithio.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Arian – a allai gael ei ariannu gan CNC?
- Mynediad ar fysiau ar gyfer cŵn, cychod, canŵod, ac ati

**Bwrdd prynhawn 4:**

**Syniad:** Coedwig a phentref di-gar. Parcio a theithio, teithio llesol, llwybrau beicio gwell. Cyfleoedd i eistedd/ bwyta / cymdeithasu y tu allan i gaffis a siopau. Canolfan drafnidiaeth / rhannu car. Datblygu ap i archebu cludiant.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Seilwaith
- Mae angen busnesau newydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn

**Bwrdd prynhawn 5:**

**Syniad:** Mae angen symud y maes parcio beth bynnag oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gallai hyn fod yn gyfle i'w adleoli ymhellach i lawr y ffordd a defnyddio cyfleuster parcio a theithio ynghyd ag opsiynau teithio llesol i gyrraedd y traeth.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- **Tirfeddiannaeth** safleoedd posibl ar gyfer maes parcio newydd
- Cyllid
- Angen gweithredu nawr yn hytrach na siarad

**Bwrdd prynhawn 6:**

**Syniad:** System archebu man parcio ar-lein / archebu man parcio ymlaen llaw yn y tymor byr, gan sicrhau bod gan bobl leol fynediad teg. Y tymor hwy: parcio a theithio.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Angen osgoi cymryd tir amaethyddol oddi wrth ffermwyr – dylid defnyddio safleoedd tir llwyd
- Cyllid
- Arweinyddiaeth

- Diffyg ymdeimlad o frys - rydym wedi bod yn trafod hyn ers blynyddoedd ac rydym yn dal yma yn ei drafod heddiw

**Bwrdd prynhawn 7:**

**Syniad:** Ffurfio grŵp cynrychioliadol o aelodau o’r gymuned, gan gynnwys pobl ifanc / plant ysgol. Dylid sicrhau bod prosiectau addysgol yn cyd-fynd â materion lleol. Ystyried cynlluniau tebyg yn fyd-eang i gyflawni hyn. Rhyngweithio â'r holl gyrff cyhoeddus perthnasol.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Amserlenni - mae angen hyn arnom nawr!

**Bwrdd noson 1:**

**Syniad:** Datrysiad dros dro (eleni): rheoli traffig gyda lolipops. Arwyddion o bell. Archebu lle yn y maes parcio ymlaen llaw gydag amseroedd gwahanol. Y tymor hwy: Parcio a theithio / bws gwennol; opsiwn i bobl feicio i lawr i'r traeth. Byddai system unffordd yn ddelfrydol.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Dymuniad yr awdurdod lleol a CNC
- Pwy sy'n rheoli parcio oddi ar y safle?
- Pwy sy'n berchen ar y tir ar gyfer meysydd parcio newydd?

**Bwrdd noson 2:**

**Syniad:** Ffordd gyswllt? Parcio a theithio – ychydig y tu allan i’r pentref pan fydd maes parcio’r traeth yn llawn. Bysiau trydan a beiciau yn gwasanaethu hyn. Datblygu mynedfa newydd (Pen Lôn?) i feiciau a cherddwyr.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Mannau gwefru cerbydau trydan
- Tirfeddiannaeth
- Rheoli safleoedd a phrosiectau

**Bwrdd noson 3:**

**Syniad:** Cyfyngu nifer y ceir sy’n mynd i lawr i'r traeth. Parcio a theithio – defnyddio’r maes parcio yng Ngaerwen oddi ar yr A55. Dylid gwerthu tocynnau sydd wedi'u harchebu ymlaen llaw fel nad oes gormod o bobl yn effeithio ar y bywyd gwyllt. System unffordd trwy'r goedwig. Dylid annog pobl i feicio. Rheolaeth dda ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfleu hyn i gyd. Cabannau glan mor yn ffurfio marchnad ar gyfer busnesau lleol.

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Dylid bod yn ymwybodol o effeithio ar bentrefi eraill gyda threfniadau parcio a theithio
- Effaith bysiau ar y ffyrdd ac ar fywyd gwyllt

**Bwrdd noson 4:**

**Syniad:** Archebu mannau parcio ymlaen llaw. Dylid sicrhau mai pobl leol yn unig a all gael mynediad i Stryd yr Eglwys. Dylid creu maes parcio i dwristiaid (A48 - cae wedi'i nodi).

**Rhwystrau a nodwyd / cais am gymorth:**

- Perchnogaeth y prosiect
- Cyllid

## Summary

Cafwyd llawer iawn o wybodaeth a syniadau o ganlyniad i’r digwyddiad mewn ymateb i'r her “Sut allwn ni fynd i'r afael ag anghenion y gymuned leol yn well drwy wella mynediad a chludiant yn Niwbwrch?”

Roedd gan y ddwy sesiwn un nod clir: sicrhau bod y gymuned yn cyd-ddylunio atebion ynghylch trafnidiaeth a mynediad. Ceir themâu cyffredin o'r holl gyflwyniadau (gyda pharcio a theithio yn thema flaenllaw), ond ceir amrywiaeth gyfoethog o ran y ffyrdd y mae'r gymuned yn credu y gellir gwneud hyn.

Gan ganolbwyntio am eiliad ar gyd-ddylunio ffyrdd posibl o roi’r opsiwn parcio a theithio ar waith, mae'r gymuned wedi darparu dull amlochrog a allai weithio i bawb. Yn ogystal â rhannu doethineb a gwybodaeth am leoliadau posibl, opsiynau trafnidiaeth cerbydau llesol a thrydan, sut mae angen i newidiadau gyd-fynd â'r system drafnidiaeth, a chadw mynediad i drigolion gan ddefnyddio technoleg cafodd ystod o opsiynau menter posibl eu harchwilio hefyd. Gallai'r opsiynau menter hyn,

gyda chymorth asiantaethau, gynyddu'r ffyrdd y mae'r gymuned yn elwa ar yr atebion arfaethedig hyn.

Drwy gydol y ddwy sesiwn daeth opsiynau i'r wyneb sy'n cefnogi mesurau gwella tymor byr ac atebion tymor canolig i hir. Cyflwynwyd hefyd graddfa o gostau a buddion i gyflawni hyn.

## Y camau cyd-ddylunio nesaf a argymhellir

***"Beth yw syniad da? Syniad sy'n digwydd. Os nad yw'n digwydd, nid yw'n syniad da."*** Paul Arden

Dywedodd Thomas Edison, "Mae 1% o athrylith yn ysbrydoliaeth a 99% ohoni'n chwys". Mae'r un cysyniad yn wir ar gyfer arloesi. Nod y digwyddiad oedd creu gwreichionyn o ysbrydoliaeth, ac mae'n nawr am gynnydd a chwys. I gynorthwyo â'r camau nesaf, rydym yn argymell defnyddio'r offerynnau a ganlyn:

1. Parhau i ychwanegu at y Map Asedau (tudalen 5) a'i adolygu.

2. Cymhwyso'r cwestiynau a ganlyn i "estyn" y syniadau a gynhyrchwyd yn y digwyddiad ymhellach:

- **Cyfuno** - Beth allaf gyfuno fy syniad ag ef? Cynnyrch arall? Proses?
- **Ailbwrpasu** - A allaf ail-bwrpasu fy syniad ar gyfer rhywbeth arall, cynulleidfa arall, tro arall?
- **I fyny'r gadwyn** - A fyddai'n well gosod fy syniad yn nes at ffynhonnell y broblem?
- **Pegynu** - A allaf droi fy syniad ar ei ben i greu rhywbeth newydd?
- **Dyfodoleiddio** - A allaf foderneiddio fy syniad ymhellach?
- **Gwrthdroi tybiaeth** - A allaf gael gwared ar elfen allweddol i greu rhywbeth newydd?
- **Yng ngolau'r lloer** - Sut fyddai fy syniad yn edrych ymhen 10 mlynedd a mwy?
- **Sioe ar yr ochr** - A oes modd gwneud rhywbeth arall cefnogol ochr yn ochr â'r her o dan sylw?
- **Chwaraewr rhan fach** - A allaf chwarae rhan lawer llai (ond effeithiol) yn y broses?
- **Y lleidr** - A allaf ddwyn syniad / proses rhywun arall o gyd-destun arall a'i ychwanegu at fy un i?
- **Y môr-leidr** - A allaf dorri rheol i greu rhywbeth newydd?
- **Lleihau** - Beth yw'r cynnyrch hyfyw lleiaf y gallaf ei gynhyrchu?

3. Ymrwymo i weithredu gan ddefnyddio amcanion SMART (Penodol, Mesuradwy, Gweithredadwy, Realistig ac wedi'i Amseru). Lluniwyd y tabl a ganlyn i gynorthwyo â hyn:

| | Pwy / Who? | Beth / What? | Pryd / When? | Ble / Where? | Pam / Why? | Sut / How? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasg 1 | | | | | | |
| Tasg 2 | | | | | | |
| Tasg 3 | | | | | | |
| Tasg 4 | | | | | | |

“Pan fydd pobl yn teimlo’u bod yn perthyn, maen nhw’n gallu bod ar eu gorau a gwneud eu gorau”

Susie Wise, d:ysgol